22 Mawrth 2019

Annwyl Ymgeisydd

Pecyn Gwneud Cais am Grant Cymorth y Gymraeg: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 2019-20

Diben y Grant a Dyddiau Allweddol

Mae'r Grant Cymorth y Gymraeg ar gael i bob corff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru i gefnogi dysgwyr sydd am sefyll cymwysterau cyffredinol a galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn y gellir defnyddio'r cyllid ar ei gyfer ar dudalen tri o dan **Costau cymwys cyllido.**

Dylid anfon ceisiadau wedi'u cwblhau dros e-bost i grantiau@cymwysteraucymru.org erbyn **26 Ebrill 2019.** Ni chaiff unrhyw geisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad hwn eu hystyried.

Gall ymgeiswyr wneud cais am gyllid ar gyfer costau cymwys yr eir iddynt rhwng **1 Ebrill 2019** a **13 Mawrth 2020**, sef y cyfle olaf i hawlio.

Mae Cymwysterau Cymru yn nodi bod unrhyw gorff dyfarnu cydnabyddedig fydd yn cael cymorth ariannol drwy'r rhaglen hon yn ymrwymo i'r canlynol:

- Gwneud asesiadau cyfrwng Cymraeg ar gael i ganolfannau
- Rhoi cyhoeddusrwydd i'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Tystiolaeth o'r ymrwymiad i gynaliadwyedd y cymhwyster/cymwysterau.

Mae Cymwysterau Cymru yn pwysleisio y gall wrthod cyllido cymwysterau ar y sail bod darpariaeth debyg eisoes ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Blaenoriaethau Strategol

Yn unol â strategaeth iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru - Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg, a'n hadolygiad parhaus o'r Polisi Rheoleiddio Cymwysterau cyfrwng-Cymraeg a Dwyieithog, rydym ar hyn o bryd yn nodi ein blaenoriaethau strategol tymor hwy.

Ar gyfer 2019/20, mae'r mathau canlynol o gymwysterau yn debygol o gael eu blaenoriaethu ar gyfer cyllid drwy'r grant hwn os yw cyfanswm yr arian grant y gofynnwyd amdano yn fwy na'n cyllideb ddyranedig:

1. Cymwysterau mewn meysydd sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol neu sectorau blaenoriaeth cenedlaethol eraill. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:
   - Iechyd, Gwasanaethau Cyhoeddus a Gofal;
   - Busnes;
   - Hamdden, Teithio a Thwristiaeth;
   - Amaethyddiaeth;
   - Adeiladu;
   - Diwydiannau Creadigol;
   - Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
   - Ynni a'r amgylchedd;
   - Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol;
   - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu; a
   - Gwyddorau bywyd.

2. Cymwysterau mewn meysydd lle mae'r gyfran o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg ar eu huchaf e.e. *Adeiladu, Cynllunio a'r Amgylchedd Adeiledig, Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid, Peirianneg a Thechnolegau Gweithgynhyrchu, Manwerthu a Menter Masnachol ac Hamdden, Teithio a Thwristiaeth.*

3. Cymwysterau mewn meysydd lle mae darpariaeth bresennol trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefelau penodol ac angen i hwyluso dilyniant i ddysgwyr.

4. Cymwysterau mewn meysydd cyflogaeth lle mae defnydd o'r Gymraeg ar eu huchaf e.e. *Amaethyddiaeth, Ynni a Dŵr, Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd ac Adeiladu*.

Dylai ymgeiswyr ystyried y meysydd a amlinellir uchod yn eu hymateb i 2a. Y rhesymeg dros wneud cais am y grant hwn.

Proses Cyflwyno Cais

Bydd angen i bob ymgeisydd gyflwyno **ffurflen gais wedi'i chwblhau** a **thaenlen gwybodaeth ategol** erbyn y dyddiad a nodir uchod.

Mae'r ffurflen gais ar gael o dudalen 6 ymlaen ac fe'i rhennir yn dair adran:

1. Manylion cyswllt y sefydliad
2. Disgrifio eich prosesau ar gyfer cefnogi cymwysterau Cymraeg
3. Proffil Taliadau a Datganiad

Ni chaiff pob adran o'r cais ei sgorio, ond rhaid cwblhau pob adran. Gall methu â darparu ymatebion digon manwl arwain at wrthod eich cais.

Sgorio eich cais

Bydd gofyn i chi hefyd ddarparu manylion ynglŷn â pham bod angen y cyllid grant arnoch o dan **2a**. **Y rhesymeg dros wneud cais am y grant hwn**. Ni chaiff yr adran hon o'r cais ei sgorio, ond mae'n ofynnol.

Caiff yr agweddau canlynol ar y cais eu sgorio ac maent wedi'u pwysoli.

Meini prawf	Amlinelliad	Pwysoliad
2b. Sicrhau Ansawdd	Disgwylir i gyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth o'u gallu i sicrhau ansawdd eu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cyllid.	30%
2c. Cynaliadwyedd	Disgwylir i gyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth ynglŷn â'r ffordd y maent yn bwriadu cefnogi'r cymhwyster/cymwysterau yn yr hirdymor.	30%
2d. Galw	Disgwylir i gyrff dyfarnu ddarparu tystiolaeth yn dangos lefel y galw/y galw tebygol am y cymhwyster/cymwysterau a'r manteision canfyddedig i ddysgwyr a rhanddeiliaid eraill o'r ddarpariaeth arfaethedig..	40%

Bydd y meini prawf yn cael eu marcio fel a ganlyn-

Sgôr	Disgrifiad
1:	Ddim yn ateb y cwestiwn
2:	Yn ateb bron pob agwedd ar y cwestiwn ond heb lawer o fanylion
3:	Yn ateb y cwestiwn yn llawn â digon o fanylion
4:	Yn ateb y cwestiwn yn llawn â thystiolaeth ragorol sy'n cwmpasu pob rhan o'r maen prawf

Mae'r daenlen **gwybodaeth ategol** yn ddogfen ar wahân a dylid ei chynnwys gyda'r llythyr hwn a'r ffurflen gais. Cysylltwch â grantiau@cymwysteraucymru.org os bydd angen copi arnoch.

Lle bynnag y bo'n bosibl, mae Cymwysterau Cymru yn gofyn i chi amlinellu'r manylion canlynol yn y daenlen Gwybodaeth Ategol:

- **Enw'r cymhwyster –** teitl llawn y cymhwyster
- **Enw'r uned (lle y bo'n berthnasol) –** teitl unigol yr uned os ydych yn gweithio ar y lefel hon.

- **Dyddiad gorffen achredu –** y dyddiad y byddwch yn rhoi'r gorau i gofrestru dysgwyr newydd ar y cymhwyster hwn.
- **Dyddiad gorffen ardystio –** bydd angen i bob un o'r dysgwyr sy'n weddill gwblhau'r cymhwyster erbyn y dyddiad hwn.
- **Cod QiW –** y cod a gaiff ei bennu i'r cymhwyster gan Cymwysterau Cymru (os yw'n berthnasol).
- **Cod Rhif Achredu Cymhwyster –** y cod a gaiff ei bennu i'r cymhwyster gan Ofqual (os caiff y cymhwyster ei reoleiddio yn Lloegr.
- **Eitem(au) i'w darparu yn Gymraeg** – er enghraifft manyleb, manylion uned, asesiadau.
- **Dadansoddiad o'r costau** fesul eitem – am unrhyw gostau cyfieithu, rhowch gost fesul 1,000 o eiriau.
- **Nifer y dysgwyr –** mae Cymwysterau Cymru yn gofyn am ddealltwriaeth o hyn yn **Adran 2.d Galw** ond efallai yr hoffech roi rhagor o fanylion yn y daenlen yn ogystal â'r naratif.
- **Costau Staff –** disgrifiad o gostau staff yr aed iddynt o bosibl sydd uwchlaw unrhyw gostau cyfrwng Saesneg.
- **Wedi'i ariannu'n flaenorol –** nodwch p'un a yw eich sefydliad wedi derbyn cyllid ar gyfer cymorth iaith Gymraeg yn flaenorol (naill ai drwy Cymwysterau Cymru neu Lywodraeth Cymru).
- **Amserlen ar gyfer gweithgarwch a gynlluniwyd -** gallai hyn gynnwys cyfathrebu â chyfieithwyr a therfynau amser ar gyfer y gwaith hwn, ynghyd â'ch terfynau amser mewnol ar gyfer cyhoeddi deunyddiau a'r amserlen farchnata tymor hwy ar gyfer y cymhwyster/cymwysterau. Bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynnal sgyrsiau parhaus â chi er mwyn cytuno ar ddyddiadau hawlio priodol sy'n cyfateb i'r eitemau allweddol i'w cyflwyno. Gallwch ddarparu diagram, rhestr o ddyddiadau allweddol neu naratif. Mae Cymwysterau Cymru yn deall y gall unrhyw fanylion a gyflwynwyd newid.
- **Gwybodaeth Ychwanegol -** os hoffai eich sefydliad ddarparu rhagor o wybodaeth ategol, gallwch gynnwys y wybodaeth honno yn y tab gwybodaeth ychwanegol a ddarperir.

Costau cymwys cyllido

Gellir defnyddio'r cyllid ar gyfer y canlynol:

- Gan gyrff dyfarnu a gydnabyddir gan Cymwysterau Cymru ac ar gyfer cymwysterau sy'n cael eu rheoleiddio gan Cymwysterau Cymru;
- I gyfieithu deunyddiau sy'n gysylltiedig â chymwysterau yn uniongyrchol: manylebau, deunyddiau asesu enghreifftiol ac unrhyw fath o ganllawiau;

- Ar gyfer costau gweinyddol sydd uwchlaw'r costau cyfrwng Saesneg cyfatebol a all gynnwys costau staff uniongyrchol – swyddogion golygyddol, clercod pwnc, gweithredwyr prosesu geiriau ac ati;
- Ar gyfer costau argraffu sydd uwchlaw'r costau cyfrwng Saesneg cyfatebol. Er enghraifft, os bydd argraffu 500 o bapurau arholiad cyfrwng Cymraeg yn costio £x a bydd ychwanegu 500 at y nifer o bapurau cyfrwng Saesneg sy'n cael eu hargraffu yn costio £y, bydd Cymwysterau Cymru yn fodlon talu'r costau ychwanegol wrth argraffu'r papurau cyfrwng Cymraeg h.y. £x-£y.

Costau cyfieithu

Yn unol â chytundeb fframwaith Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfieithiadau Cymraeg, mae Cymwysterau Cymru yn disgwyl i gostau cyfieithu fod rhwng £70 a £90 gan gynnwys TAW fesul 1,000 o eiriau. Bydd Cymwysterau Cymru yn derbyn costau sydd islaw pris isaf yr ystod, ar yr amod nad oes unrhyw oblygiadau o ran sicrhau ansawdd. Byddwn yn ad-dalu costau cyfieithu hyd at uchafswm o £90 gan gynnwys TAW fesul 1,000 o eiriau.

Ar ôl cyflwyno'r cais

Caiff pob cais sydd wedi'i gwblhau'n llawn ei adolygu'n fewnol gan Cymwysterau Cymru yn erbyn y meini prawf a amlinellir ac, os bydd angen, efallai y bydd Cymwysterau Cymru yn cysylltu â chi i ofyn am ragor o wybodaeth.

Os yw'r cais yn llwyddiannus, bydd Cymwysterau Cymru yn anfon Llythyr Dyfarnu Grant atoch, a bydd angen i chi ei lofnodi a'i ddychwelyd er mwyn gweithredu'r broses grant. Bydd y Llythyr Dyfarnu Grant yn amlinellu cyfanswm y cyllid a ddyfernir, amodau'r grant a dyddiadau allweddol, yn ogystal â'r dystiolaeth y bydd ei hangen ar gyfer unrhyw hawliad.

Os nad yw'r cais yn llwyddiannus, bydd Cymwysterau Cymru yn darparu adborth ysgrifenedig. Gall y corff dyfarnu ofyn am ragor o fanylion os bydd angen.

Hawlio'r cyllid

Rhaid i chi hawlio'r cyllid yn unol â'r proffil hawlio a nodir yn y Llythyr Dyfarnu Grant a rhaid darparu'r dystiolaeth ganlynol:

- Unrhyw anfoneb(au) a gyflwynwyd mewn perthynas â phob cyfnod hawlio.
- Copïau o unrhyw anfonebau cysylltiedig yn ymwneud â chynhyrchu/gweinyddu gwaith/gweithiau amrywiol megis ffioedd cyfieithydd, taflenni amser ar gyfer costau staff uniongyrchol a sicrhau ansawdd y cyfieithiadau ac ati;

- Enghreifftiau o ddogfennau wedi'u cyfieithu sy'n gysylltiedig â'r cymwysterau sydd wedi'u rhestru yn y cais fel tystiolaeth ategol.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus roi'r newyddion diweddaraf am y cynnydd i reolwr grantiau Cymwysterau Cymru a rhannu tystiolaeth o'r gwaith a gwblhawyd. Gwneir hyn ar ffurf galwad gynadledda fel arfer.

Gall methu â hawlio erbyn y dyddiad a/neu ddarparu'r dystiolaeth ofynnol arwain at golli'r cyllid.

Codi TAW

Nid yw TAW yn daladwy ar eich hawliad. Os yw'r costau yr ewch iddynt ar gyfer gwaith perthnasol a gwblhawyd yn cynnwys elfennau o TAW anadferadwy (ac y gellir dangos tystiolaeth ohonynt ar ffurf anfoneb), yna gellir cynnwys hyn yng nghyfanswm y grant y gwneir cais amdano.

Derbynnydd Grant Newydd

Os mai dyma'r tro cyntaf i chi gael y cyllid hwn gan Cymwysterau Cymru, yna mae'n debygol y bydd angen i chi gwblhau ffurflen derbynnydd grant newydd fel y gallwn brosesu eich hawliadau cymeradwy. Os nad ydych yn siŵr a oes angen i chi gwblhau'r ffurflen cyflenwr cysylltwch â grantiau@cymwysteraucymru.org.

Cysylltiadau allweddol Cymwysterau Cymru

Rheolwr Grantiau: Laura Evans
Deiliad y Gyllideb: Daniel Tromans
Noddwr Grantiau: Kate Crabtree

Anfonwch eich ceisiadau wedi'u cwblhau i grantiau@cymwysteraucymru.org. Os hoffech drafod unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'ch cais, cysylltwch â rheolwr y grant yn laura.evans@cymwysteraucymru.org.

Yn gywir

Kate Crabtree
Cyfarwyddwr Gweithredol Polisi ac Ymchwil, Cymwysterau Cymru

Cais am Gymorth Iaith Gymraeg: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol 2019-20

1. Manylion cyswllt eich Sefydliad

Defnyddiwch yr adran hon i roi gwybodaeth gyswllt allweddol fel y gall Cymwysterau Cymru gysylltu â chi. Rhowch enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn ar gyfer yr unigolion a ddewiswyd a chyfeiriad llawn eich sefydliad.

Rôl	Enw	Cyfeiriad E-bost	Rhif Ffôn
Rheolwr y Prosiect:			
Noddwr y Prosiect:			
Arweinydd Cyllid:			

Prif Gyfeiriad y Corff Dyfarnu	

2. Disgrifio eich prosesau ar gyfer cefnogi cymwysterau Cymraeg

2a. Y rhesymeg dros wneud cais am y grant hwn: Defnyddiwch yr adran hon o'r cais i esbonio diben eich cais, gan gynnwys cyfeiriadau at y blaenoriaethau strategol fel yr amlinellir yn y pecyn ymgeisio lle bo'n berthnasol h.y. beth fyddech yn defnyddio'r cyllid ar ei gyfer a pham fod angen ein cymorth ariannol arnoch mewn perthynas â'r gweithgarwch hwn (ni chaiff yr adran hon o'r ffurflen gais ei sgorio, ond mae'n ofynnol).

2b. Sicrhau Ansawdd: Dywedwch wrthym sut y bydd eich sefydliad yn sicrhau ansawdd y cymhwyster/cymwysterau/uned(au) nawr ac yn y dyfodol. Dylech ystyried y prosesau y byddwch yn eu rhoi ar waith i gynhyrchu deunyddiau cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys sicrhau ansawdd y cyfieithiadau. Efallai yr hoffech ystyried sut i ymdrin ag asesiadau cyfrwng Cymraeg. A oes aseswyr a gwirwyr ar gael a fydd yn asesu'r cymhwyster/cymwysterau/uned(au) drwy gyfrwng y Gymraeg?

2c. Cynaliadwyedd: Amlinellwch sut rydych yn bwriadu marchnata'r cymhwyster/cymwysterau/uned(au) cyfrwng Cymraeg. Esboniwch sut y byddwch yn ceisio sicrhau cynaliadwyedd ac argaeledd y cymhwyster/cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg a sut rydych yn bwriadu cefnogi'r cymhwyster/cymwysterau yn yr hirdymor. Noder y gallwch ategu'r disgrifiad o'ch gweithgarwch marchnata yn yr amserlen ofynnol yn y daenlen **gwybodaeth ategol**.

2d. Galw: Rhowch dystiolaeth o'r galw neu'r angen tebygol i'r cymhwyster/cymwysterau neu'r uned(au) gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys niferoedd darogan dysgwyr. Lle nad yw hyn yn bosibl, gallwch ddarparu niferoedd hanesyddol dysgwyr yn y daenlen gwybodaeth ategol i gefnogi'r agwedd hon. Dylech ddarparu unrhyw dystiolaeth gan ganolfannau, ymgeiswyr, cyflogwyr neu gyrff perthnasol yn y sector sy'n amlinellu'r angen i'r cymhwyster/cymwysterau neu i'r uned(au) gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg.

3. Proffil Taliadau a Datganiad

Defnyddiwch yr adran hon i gadarnhau cyfanswm y cyllid rydych yn gwneud cais amdano a'r dyddiadau y byddwch yn cyflwyno hawliadau (rydym yn disgwyl i chi hawlio yn unol â'ch proffil gweithgarwch sy'n cadarnhau eich eitemau allweddol i'w cyflwyno). Noder bod angen i ni dderbyn yr hawliad olaf erbyn dydd Gwener 13 Mawrth 2020.

Proffil Taliadau
Nodwch gyfanswm y cyllid yr hoffech ei hawlio:

Datganiad: Rwy'n ardystio bod y wybodaeth a ddarparwyd yn y cais hwn yn gynrychiolaeth wir a chywir o'r ffeithiau.	
Enw cyswllt y corff dyfarnu:	
Dyddiad:	

Anfonwch eich ceisiadau wedi eu cwblhau i Grantiau@cymwysteraucymru.org erbyn **26 Ebrill 2019.**